Meistr ar Meistr Cadno Coch

Helpu Eraill / Maddeuant

Ar ei ffordd i fyny'r bryn daeth y cadno coch ar draws twll y gwningen lwyd. Arhosodd tu ôl i'r gwrych i wylio. Ymhen awr neu ddwy daeth y gwningen allan o'r twll a rhedodd yn sydyn i lawr y bryn.

"Mae hi'n mynd i chwilio am fwyd" meddai'r cadno coch. "Dyma fy nghyfle i fynd i mewn i'r twll."

Aeth i geg y twll ac edrychodd i mewn. Yna dyma fo'n rhoi ei bawen dde yn y twll, yna ei bawen chwith a dyma fo'n gwthio ei gorff ymlaen. Wedyn dyma fo'n gwthio ei bawennau ôl ymlaen a dyma fo'n llusgo'i ffordd i mewn i dwll y gwningen.

"Mi ydw i am aros yma nes daw y gwningen lwyd yn ôl", meddai gan ddechrau hepian cysgu.

Ymhen hir a hwyr pwy ddaeth yn ei hol ling di long i fyny'r bryn ond y gwningen fach lwyd. Pan ddaeth yn nes at ei chartref gwelai rywbeth yn symud o'r naill ochr i'r llall. "Mae gen i bobl ddiarth" meddai wrthi'i hun.

Galwodd, "O dwll bach clyd. O dwll bach clyd, wyt ti'n hapus, dwll bach clyd?"

Clywodd y cadno coch gân y gwningen lwyd. Dechreuodd anesmwytho. Doedd y cadno coch ddim yn gwybod ble roedd ei gynffon.

"Mae'n amlwg fod y gwningen yn siarad efo'i chartref" meddai wrtho'i hun. "Mi wnai aros yn ddistaw bach."

Yna, dyma'r gwningen fechan yn dechrau canu unwaith eto, "O dwll bach clyd, O dwll bach clyd, wyt ti'n hapus, dwll bach clyd?"

"O diar" meddai'r cadno. "Beth petai'r gwningen yn gwybod fy mod i yn swatio yn ei chartref."

Felly pan ddechreuodd y gwningen ganu am y trydydd tro, dyma'r cando yn ei hateb, "Yn wir, gwningen fechan mi rydw i'n hapus iawn," meddai mewn llais main, gwichlyd.

"Yr hen gadno gwirion", neddai'r gwningen, "Dydi twll

cwningen ddim yn ateb yn ôl a does ganddo ddim cynffon goch chwaith. Dyma fi wedi dy ddal y tro hwn."
"O na" meddai'r cadno, gan geisio gwthio ei ffordd allan. Ond roedd yn sownd, yn berffaith sownd.
"Aros" meddai'r gwningen, "tra bydda i'n mynd i chwilio am help." Rhedodd i lawr y bryncyn i chwilio am y wiwer goch. Rhedodd y ddwy yn ôl a dyna lle bu'r wiwer goch yn llusgo'r cadno coch gerfydd ei gynffon. Pan ddaeth y cadno coch yn rhydd, diolchodd i'r gwningen.
"Cofia di yr hen gadno coch, paid ti byth â dod yn agos i'm cartref i eto. Cofia di."
Rhedodd i lawr y bryn tuag at ei ffau.

O Dduw, pan fydd rhywun wedi gwneud drwg i mi, gai i fod y cyntaf i'w helpu. Amen.

✦ Pam oedd y cadno eisiau mynd i mewn i dwll y gwningen?
✦ Ydych chi'n credu fod y gwningen yn greadur caredig?